Buddugol yn Eisteddfod Colwyn Bay, 1881.

# GALAREB

I'R DIWEDDAR

# MR. DAVID WILLIAMS, EIRIAS FARM,

## COLWYN BAY.

BU FARW HYDREF 2, 1880, YN 59 MLWYDD OED.

GAN JOHN JONES, DERWENDEG, TREGARTH.

GWR UNIAWN MEWN GWIRIONEDD;
GWR DIFALCH O'I GRYD I'W FEDD.

ROBERT JONES, ARGRAPHYDD, ABERGELE.

# GALAREB.

Naturiol iawn i'r meddwl yw rho'i hynt,
A galw 'n ol rhyw hen gyfeillion gynt;
Adalw 'n ol mae'r côf i mi fel drych,
Adgofia gwmni dyddiau maboed gwych;
A dwyn delweddau y foreuol hynt,
I gofio 'r lle a'r troion difyr gynt.
Wrth droi dalenau amser ar ei hyd,
Ceir gwel'd mai cyfnewidiol iawn yw'r byd,
Ac einioes roed fel ysgol gu i ni,
Bob dydd o ffon i ffon y dringir hi.
Wrth droed y cryd un pen sy'n hardd ei wedd,
Tra mae'r pen arall hefyd yn y bedd;
A'r cyfnod prawf sydd genym i'w fwynhau,
A ffurfio'n tynghed, ydyw rhwng y ddau;
Ac einioes **DAVID WILLIAMS** olrhain wnawn,
Nes gwel'd y dyn, y Cristion, ynddo'n llawn.

Nid rhaid yw holi am rinweddau 'r gŵr,
O dŷ i dŷ, a gwneyd rhyw ddirfawr stŵr;
Ni raid addurno 'r lili i'w theghau,
Ond yn ei gwisg ei hun caiff ei mawrhau.

Am David Williams, nid pentyru wnawn
Rhyw ansoddeiriau, er ei wneyd yn llawn,
Ond dilyn oes y gŵr, yn nghyd a'i waith,
O fan i fan, hyd nes terfynu 'r daith.

Yn foreu planwyd egwyddorion nef
O'i fewn, a thyfu wnaeth fel derwen îr a chrêf,
A daliodd ef trwy wamal oedran llangc,
Gair Duw fu 'n gwmpawd iddo ef hyd drangc.
Ei gwmni ef oedd llyfrau, gyda phwyll,
A rho'es ei draed ar lwybrau sangai dwyll.
Yn mhob lle bu ef, fel tystia 'r wlad yn awr.
Pellebrai at ei Dduw o awr i awr.

O Golwyn dêg, a'i lon'd o waith—yr aeth
Yn ei rym yn berffaith ;
Yn ddilwgr gweithiodd eilwaith,
A'i ddydd têg hyd ddiwedd taith.

Nodedig symudiadau—a fuoedd
Trwy ei fywyd yntau ;
A nodwedd ei rinweddau,
Y mae yr oll i'w mawrhau.

Ei lon'd o waith, heulwen dêr,
Oedd y dyn, gwylaidd dyner ;
A taena swyn tewynol
Foreu o haf ar ei ol.
Llawen galon a'i golwg,
A byw ei drem rhag pob drwg.
Dyn a gafwyd yn gyfiawn,
A dyn oedd am wneyd yn iawn.

5850

Cyfranai les i bawb, ni fu yn gudd,
Ond dystaw fel yr haul ar ganol dydd;
Ac ynddo ymddadblygai cariad pur,
Di-weniaeth, ffyddlawn ydoedd megys dur.
Bu 'n bwyllog a gofalus p'le rho'i droed;
Ni roddai air i friwio neb erioed.
Ei fywyd ef oedd gyfrol heb un twyll,
Di-ildio, penderfynol gyda phwyll.
Beth bynag oedd ei goll, nid oedd yr un
I'w attal ef i fod yn gyflawn ddyn;
Ac nid oes neb all edliw unrhyw graith,
Na thwyll, rhag bod yn Gristion pur ychwaith.

Aeth i LANNEFYDD draw dan fendith nef;
Aeth yno, do, a'i grefydd gydag ef;
Nid fel bachgenyn da yn Nghymru fâd
Yn byw yn dawel dan ddylanwad tâd,
Ond aeth i ffwrdd, dechreuai fyw'n ddidrefn,
Heb feddwl am weddiau tad, pan droes ei gefn;
Nid felly fu; yr un oedd ef o hyd,
A daliodd hefyd tra bu yn y byd.
Bu yn NHALHAIARN; un dim o'i ol ni cha'
Ond clod gan bawb, yn nghyd ag enw da.
Cymydog hynaws, priod hoff oedd ef,
A gonest hefyd, tystiai gwlad a thref.
Fe gollodd gwlad y dyn addurnai hi,
Ond cylchoedd eraill gollodd fwy o fri.
Dyngarol fynwes gafwyd at dylawd;
Cyfeillach wnai a'r estron megis brawd;
Yn daer wrth orsedd gras gweddiai ef
Nes teimlem swyn yn llenwi'r fan o'r nef.
Disgynai 'i eiriau fel boreuol wlith,
Neu doriad blwch o enaint yn ein plith;

Ceryddai 'n hyf, heb deimlo unrhyw fraw,—
I'r llesg a'r gwan y rhoddai gymorth llaw.

A chefn pob pwyllgor ydoedd, a phob gwaith
A fu 'n mhob dull, ac am flynyddau maith.
Os Bwrdd Gwarcheidiol, yno 'n ëofn gawn,
Yn meddu cydymdeimlad yno 'n llawn;
Y tlawd a'r noeth dadleuai tros y ddau,
Pan ydoedd eraill hefyd i'w sarhau.
Os ar Fwrdd Ysgol, addurn yn ein mysg,
Yn llawn doethineb rhoddai ini ddysg;
Ac mewn Gwleidyddiaeth bu 'n Rhyddfrydwr iawn,
Am ryddid bu o galon gywir lawn.

Ond yn yr Eglwys cafwyd ef yn ddyn,
Ac yn adnabod lle a'i waith ei hun;
Hyfforddwr cywir, gydag uniawn farn
Galluog, ac yn Armin hyd y carn.

Er achos Iôr awchus sêl—a feddai,
Ufuddaf ŵr tawel;
Ei dda oes gwylaidd isel—oedd o'i fodd,
Hyd nes y gwyrodd dan nos y gorwel.

Ei ddyddan waith ddydd a nos,—yn y gwaith
Gweithio wnaeth a dangos
Lwybrau gwir, gan hir aros—yn llawn sêl,
Yn baladr uchel, yn blaid i'r achos.

Swyddog i'r achos addas—gwir swyddog
I orseddau urddas;
Tynodd o fodd cyfaddas
I'w swydd gref wrth orsedd gras.

Gŵr gonest fel y graig yna,
Eon a doeth, bu 'n gristion da.
Ei law anwyl a'i yni,
Gŵr da 'i nôd, gŵr Duw i ni.

Fel Blaenor a chynghorwr—addas oedd
I'w swyddau 'n ymroddwr;
Mynwesol gymwynaswr
Oedd y sant a gweddus ŵr.

Ei lais anwyl a'i chwynion—oedd beraidd,
A'i barabl yn Seion;
Gweithiai 'n ddyfal o galon,
A llawn hwyl yn ngwinllan Iôn.

Athraw doeth o wir deithi—a difwlch,
Dyfal am hyfforddi;
A'i oes addas o weddi
A roes yn hardd wers i ni.

Dros Dduw Iôr yn drysorydd—ei cafwyd,
Ond cyfiawn oedd beunydd;
Ni adwaen neb gofnodydd
Neu fwys air i'w feio sydd.

Glân ei galon i'w gwaelod,—heb un bai,
Na bwlch mewn un ddefod;
Gwnai pob ymdrech rhag pechod,
Gwron hedd a'i gywir nod.

A gwyddai am y gweddwon,—yn freiniol
Cyfranai i dlodion;
Haelionus a'i law union
I roi 'n rhwydd er enw 'r Iôn.

Addefir i'r amddifad
Gofalai 'n dêg fel yn dad.

Gŵr enwog o wir yni—gyweiriodd
Bwyllgorau'r Capeli;
Doeth ei nod i'n cylchdaith ni,
Tueddodd welliant iddi.

Y gelynol galonau—a unodd
Y gwahanol bleidiau;
Pob anghydfod a'i nodau,
Ystod oes wna'i gwastadhau.

Bu ef yn flaenor hefyd yn y côr,
Yn arwain yno beraidd gân i'r Iôr;
A goruchwyliwr cylchdaith ar y llawr,
Ond yn y nef mae yn y gylchdaith fawr.

Mewn dwfn gri ac mewn dofn graith—yr ydym
Mewn pryder trwy 'r Gylchdaith;
Y mae'r wlad a'i llygad llaith,
A thelyn hiraeth eilwaith.

O'i farw y cyfeiriwn—at y bwlch,
Eto byth y wylwn;
Ochain fydd na chanfyddwn
Ail yn hir i lenwi hwn.

Gŵr uniawn mewn gwirionedd,—yn deilwng
Daliodd hyd y diwedd;
Doeth a fu, nid aeth i fedd
Na chywirach i orwedd.

Mawl gaiff, ac aml ei goffa,
Yn ngair doeth ei gyngor da.

Am ei helynt ymholwch,—am ei dda,
Am ei ddull dywedwch ;
Aeth hwn i'w fedd mewn heddwch,
Asgre lân gysegra 'i lwch.

Ar fin yr afon ryfedd—yn meddu
Moddion gwir dangnefedd,
A'r enaid mewn gwirionedd
Yn nofio 'n hyf yn ei hedd.

Mawr alar ddydd ei arwyl,
Llu 'n amlwg wna gadw gwyl.

Adeg ei gladdedigaeth—y gwelid
Trigolion tra helaeth,
Yno 'n glau 'n ddiau a ddaeth—dan eu cri,
O foes i weini 'r olaf wasanaeth.

Dyddiau ei fywyd addas—fawrygir
Gan frigau cymdeithas ;
Hawdd arddel ei dda urddas
Tra uwch ei ben lechen lâs.

Dawnus oedd yn denu serch—i'n cymhell
I roddi llinell ar bridd y llanerch.
Da wladwr duwioledig—mŷn y wlad
Arwyddo 'i chariad uwch pridd a cheryg

MEHEFIN 25AIN, 1881. EI DDISGYBL.